Cervical Screening

Cervical Screening Wales
Sgrinio Serfigol Cymru

Don't ignore your smear test, it could save your life.

- Cervical screening aims to prevent cancer from developing in the cervix at the neck of the womb.
- Women from the age of 25 are invited for screening every three years. Women aged 50 to 64 are invited every five years.
- Cervical screening (a smear test) is a free NHS test that is carried out at your GP surgery or at some sexual-health clinics.
- The test is quick and simple and should not be painful, but may be uncomfortable for some women.
- Screening will not prevent all cancers and not all cancers can be cured.
- When you are due for your smear test we will send you a letter, asking you to make an appointment.
- Taking part in cervical screening is your choice. Read the information leaflet provided carefully to help you make your decision.

What you can do:

- Go for your smear test every time you are invited, even if your previous results have been normal.
- Even if you have had your HPV vaccine you will still need to go for your smear test when invited.
- Stop smoking. Smoking increases your risk of cervical cancer.
- If you have symptoms like unusual vaginal discharge, pain during or after sex or bleeding between your periods, go to the doctor even if you have had a normal smear result..

To find out more:

Visit www.screeningservices.org.uk/csw/ or talk to your practice nurse/GP.

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Peidiwch ag anwybyddu eich prawf taeniad, gallai achub eich bywyd.

- Nod sgrinio serfigol yw atal canser rhag datblygu yn y serfics sydd yng ngwddf y groth.
- Bydd merched sy'n 25 oed ac yn hŷn yn cael eu gwahodd am brawf sgrinio bob tair blynedd. Bob pum mlynedd mae merched sydd rhwng 50 a 64 oed yn cael gwahoddiad.
- Gallwch fynd i feddygfa eich meddyg teulu neu i rai clinigau iechyd rhywiol i gael y prawf sgrinio (prawf taeniad) am ddim drwy'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.
- Mae'r prawf yn gyflym ac yn syml ac ni ddylai fod yn boenus, ond fe allai rhai merched deimlo bod y prawf yn anghyfforddus.
- Ni fydd sgrinio'n atal pob math o ganser ac nid yw'n bosibl gwella pob achos o ganser.
- Pan fydd yn bryd i chi gael eich prawf taeniad byddwn yn anfon llythyr atoch, yn gofyn i chi drefnu apwyntiad.
- Chi sydd i ddewis a fyddwch yn cymryd rhan yn y broses sgrinio. Ewch ati i ddarllen y daflen wybodaeth yn ofalus i'ch helpu i benderfynu.

Y pethau y gallwch eu gwneud:

- Ewch i gael eich prawf taeniad bob tro y byddwch yn cael gwahoddiad, hyd yn oed os oedd eich canlyniadau blaenorol yn normal.
- Hyd yn oed os ydych wedi cael eich brechiad rhag HPV dylech fynd i gael eich prawf taeniad pan ddaw'r gwahoddiad.
- Stopiwch smygu. Mae smygu'n cynyddu'ch risg o gael canser gwddf y groth.
- Os byddwch yn cael symptomau fel gwaedlif anarferol o'ch gwain, poen yn ystod rhyw neu ar ôl rhyw neu waedu rhwng eich mislifoedd, ewch at y meddyg hyd yn oed os ydych wedi cael canlyniad normal i brawf taeniad.

I ddysgu mwy:

Ewch i www.screeningservices.org.uk/csw/ neu siaradwch â nyrs eich practis neu eich meddyg teulu.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales